# <u>DATGANIAD O'R RHESYMAU</u>

## MESUR ARFAETHEDIG I ARAFU TRAFFIG
## AT DDIBENION TEITHIO LLESOL YN LLAN-GAIN

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu cyflwyno twmpath arafu estynedig â brig gwastad ar Ffordd Dosbarth II y B4312 o Lan-gain i Dre Ioan, mewn lleoliad tua 10 metr i'r gorllewin o'r gyffordd â'r Ffordd Ddiddosbarth (yr U2137), yn Llan-gain.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn bod y mesur yn angenrheidiol:

a) er budd diogelwch ar y ffyrdd; ac
b) er mwyn sicrhau bod cerbydau'n gyrru'n araf mewn ardaloedd preswyl, ardaloedd o lwybrau cerdded i ysgolion ac yng nghyffiniau'r croesfannau heb eu rheoli i gerddwyr, sydd wedi'u cynllunio ac sy'n bodoli eisoes.